Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2529A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor fwlch sylweddol yn ei gyllideb dros y tymor canolig ac er gwaethaf gwelliannau i agweddau ar ei drefniadau rheolaeth ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n dal i wynebu nifer o risgiau allweddol a allai effeithio ar ei gydnerthedd ariannol yn y dyfodol.

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae gan y Cyngor fwlch sylweddol yn ei gyllideb dros y tymor canolig ac er gwaethaf gwelliannau i agweddau ar ei drefniadau rheolaeth ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n dal i wynebu nifer o risgiau allweddol a allai effeithio ar ei gydnerthedd ariannol yn y dyfodol 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae'r Cyngor yn dal i fod â bwlch ariannol sylweddol yn ei gyllideb dros y tymor canolig, ac mae effaith y pandemig wedi gohirio'i allu i ystyried camau gweithredu allweddol y mae angen iddo'u cymryd i fynd i'r afael â hyn 7

Ac eithrio blwyddyn ariannol 2020-21, mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn gymharol isel mewn perthynas â chost net gwasanaethau o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru 10

Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn dangos sefyllfa well o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol 12

Er ei fod wedi gwneud gwelliannau cynyddrannol i drylwyredd cynigion ar gyfer arbedion a'r modd y cânt eu herio, nid yw'r cwantwm llawn o arbedion blynyddol sy'n ofynnol yn cael ei gyflawni 13

Mae cymhareb hylifedd ariannol y Cyngor yn gymharol isel, ond mae'n dangos sefyllfa gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf 15

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Chwefror 2021 a mis Ebrill 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad.

**Cynigion ar gyfer gwella**

**Mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig**

C1 Mae angen i'r Cyngor baratoi a chyflawni ei gynlluniau i gau'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig, gan gynnwys:

- asesu'r effaith a'r cyfleoedd yn y tymor canolig a hir sy'n deillio o'r pandemig ac unrhyw newidiadau y cynigir eu gwneud i'w fodel darparu gwasanaethau o ganlyniad;
- sicrhau bod ei strategaeth ar gyfer y gyllideb yn ystyried cynlluniau eraill y mae wedi'u paratoi, e.e. strategaeth y gweithlu, defnyddio gwasanaethau digidol, a'i bod yn gyson â hwy; a
- pharhau i gryfhau ei broses cynllunio arbedion a gwerthuso pam nad yw arbedion yn cael eu cyflawni, i oleuo cynlluniau yn y dyfodol.

**Strategaeth Gyfalaf**

C2 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei raglen gyfalaf uchelgeisiol yn fforddiadwy. Bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol cyflwyno manylion ychwanegol a gwneud gwelliannau i'w Strategaeth Gyfalaf o ran:

- y lefel derbyniadau cyfalaf a ragwelir a'u hamseriad; a hefyd
- yr effaith y bydd unrhyw ofynion cyllido ychwanegol yn ei chael ar ei gyllideb refeniw.

**Prosesau Cynllunio'r Gyllideb**

C3 Oherwydd natur eithriadol blwyddyn ariannol 2020-21, mae'n anodd canfod i ba raddau y gwnaeth y gwelliannau a wnaed i brosesau'r Cyngor ar gyfer cynllunio'r gyllideb gyfrannu at y sefyllfa well a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n bwysig felly bod y Cyngor yn parhau i sicrhau ei fod yn monitro pa un a yw ei brosesau ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn cael yr effaith a ddymunir ac yn helpu i atal gorwariannau sylweddol mewn meysydd gwasanaeth allweddol.

# Mae gan y Cyngor fwlch sylweddol yn ei gyllideb dros y tymor canolig ac er gwaethaf gwelliannau i agweddau ar ei drefniadau rheolaeth ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n dal i wynebu nifer o risgiau allweddol a allai effeithio ar ei gydnerthedd ariannol yn y dyfodol

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal cymorth ariannol i gynghorau am chwe mis cyntaf 2021-22 yn rhoi lefel o hyder i'r Cyngor ynghylch ei sefyllfa ariannol yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae risgiau'n dal i fodoli mewn perthynas â lefel unrhyw wariant ychwanegol neu golledion incwm sy'n gysylltiedig â COVID-19 os bydd effaith y pandemig yn parhau i fod yn sylweddol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol.
- mae'r Cyngor yn defnyddio dull gweddol ddarbodus o ran ei drefniadau cynllunio ariannol ac mae'n tybio na fydd lefelau'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn parhau ar yr un lefel ag y maent wedi bod dros y 12 mis diwethaf. Mae adrannau a gwasanaethau'n cael eu hatgoffa bod cyllid ychwanegol yn annhebygol o fod ar gael yn barhaus.
- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2**, mae gwariant ychwanegol a cholledion incwm y Cyngor sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn sylweddol, ond mae'r mwyafrif o'r rhain wedi cael eu hariannu â chyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Felly, nid yw'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol fyrdymor y Cyngor i'r graddau yr oedd yn rhagweld yn wreiddiol ar ddiwedd Chwarter 1 ym mlwyddyn ariannol 2020-21.
- o ystyried natur barhaus y pandemig a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â hyn, nid yw'r Cyngor wedi cynnal asesiad eto o'r effaith bosibl ar ei fodel gweithredu a'r modd y bydd yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC). Mae hwn yn fater allweddol y bydd angen i'r Cyngor wneud gwaith manwl arno yn y misoedd sydd i ddod.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrif a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ffigyrau isod yn ymwneud â Chronfa Galedi Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw Gyllid Grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £14.221 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £3.941 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £17.039 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £1.122 miliwn |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Powys

## Mae'r Cyngor yn dal i fod â bwlch ariannol sylweddol yn ei gyllideb dros y tymor canolig, ac mae effaith y pandemig wedi gohirio'i allu i ystyried camau gweithredu allweddol y mae angen iddo'u cymryd i fynd i'r afael â hyn

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau, mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.


Canfuom fel a ganlyn:

- fe amlygodd ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn 2019-20 fod y Cyngor wedi wynebu heriau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a oedd yn golygu nad yw ei berfformiad ariannol wedi bod yn gynaliadwy. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn deall yr heriau ariannol sylweddol yr oedd yn eu hwynebu dros y tymor canolig ac roedd yn gweithio i gryfhau ei gydnerthedd ariannol ar y cyfan.
- fe wnaeth ein hadroddiad yn 2019-20 nodi hefyd bod y SATC ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025 yn nodi bylchau sylweddol o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, a bod y broses cynllunio busnes integredig a gyflwynwyd yn ddiweddar ynghyd â'i raglen drawsnewid yn allweddol i allu'r Cyngor i gau'r bylchau hynny.
- fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod effaith y pandemig wedi gohirio'i allu i ystyried y camau gweithredu allweddol y mae angen iddo'u cymryd o fewn gwasanaethau, ac felly bod angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r bylchau o ran cyllid a ragamcanir yn y dyfodol o fewn ei SATC a'i Gynlluniau Busnes Integredig.
- wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2021-22, mae'r Cyngor wedi diweddaru ei SATC ar gyfer y cyfnod o 2021-2026. Mae'r SATC yn amlygu bod y Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol wrth edrych tua'r dyfodol ac, yn seiliedig ar y senario gwaethaf, mae'n amcangyfrif bwlch yn y gyllideb o £37.346 miliwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2026.
- yn ychwanegol at hyn, mae arbedion wedi'u cynllunio o £19.548 miliwn eisoes wedi cael eu hadnabod ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a 2025-26, gan roi bwlch yn y gyllideb ar y cyfan o £56.894 miliwn dros y cyfnod o bum mlynedd.
- mae'r rhagolwg yn seiliedig ar y senario gwaethaf a geir yn y SATC wedi'i diweddaru'n cynnwys rhai tybiaethau gweddol ddarbodus. Mae'r rhain yn cynnwys bod lefel cyllid y Grant Cynnal Refeniw yn mynd i ostwng oddeutu 2% tan 2025-26. Mae'r Cyngor yn cynllunio ar sail ystod o senarios gan gynnwys setliad arian gwastad a +2%. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yn tybio na fydd cynnydd na gostyngiad mewn lefelau ariannu cyfredol.
- mae'r SATC wedi'i diweddaru hefyd yn nodi risgiau gan gynnwys capasiti i gyflawni newid, y gallu i gyflawni gostyngiadau mewn costau, rheoli trysorlys ac argaeledd cronfeydd wrth gefn a allai effeithio ar ei strategaeth ariannol ar y cyfan yn y tymor hwy.
- mae risgiau eraill a adnabuwyd gan y Cyngor, ond sydd heb eu cynnwys yn y SATC, yn cynnwys ariannu ei raglen gyfalaf uchelgeisiol, yn enwedig mewn perthynas â thrawsnewid ysgolion.
- mae lefel ei raglen Gyfalaf fel a nodir yn ei Strategaeth Gyfalaf yn sylweddol (h.y. £628 miliwn dros y deng mlynedd nesaf). Mae hyn yn cynnwys £380 miliwn o wariant nad yw'n dod o'r Cyfrif Refeniw Tai a £248 o wariant o'r Cyfrif Refeniw Tai. Bwriedir i oddeutu 70% o'r gwariant hwn (£439 miliwn) ddigwydd yn y pum mlynedd nesaf hyd at 2024-25.

- mae'r elfen fwyaf sylweddol o'r gwariant nad yw'n dod o'r Cyfrif Refeniw Tai'n ymwneud â rhaglen moderneiddio ysgolion a gwelliannau mawr y Cyngor y rhagwelir y bydd yn costio oddeutu £136 miliwn rhwng 2021-22 a 2023-24.
- mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn nodi bod yr angen cyllido net ar gyfer y cyfnod hyd at 2024-25 yn £205 miliwn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwaith pellach o ran ei Strategaeth Gyfalaf yn enwedig mewn perthynas â sut y bydd yn ariannu'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, rhagor o fanylion am lefel ddisgwyliedig y Derbyniadau Cyfalaf a'r effaith y bydd unrhyw ofynion cyllido ychwanegol yn ei chael ar ei gyllideb refeniw.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £31.959 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Fersiwn wedi'i diweddaru o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cyngor Sir Powys, wedi'i diweddaru ym mis Chwefror 2021

## Ac eithrio blwyddyn ariannol 2020-21, mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn gymharol isel mewn perthynas â chost net gwasanaethau o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

9 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

10 Canfuom fel a ganlyn:

- fe wnaeth ein hadroddiad yn 2019-20 amlygu, er bod lefel cronfa gyffredinol y Cyngor wedi aros yn weddol gyson ers mis Mawrth 2017, bod lefel ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi gostwng o £28.3 miliwn ym mis Mawrth 2017 i £19.1 miliwn ym mis Mawrth 2020, sy'n ostyngiad o £9.2 miliwn. Mae'r gronfa gyffredinol wedi cael ei chynnal ac mae'n dal i fod yn gyson â pholisi cronfeydd wrth gefn y Cyngor.
- mae'r Cyngor wedi cytuno'n flaenorol ar yr egwyddor na fydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ariannu diffygion cylchol ac mae'r egwyddor hon yn dal i gael ei chymhwyso wrth edrych tua'r dyfodol. Mae'r SATC ddiweddar yn ailadrodd yr angen am lefelau cronfeydd wrth gefn darbodus i gefnogi heriau ariannol parhaus.
- mae gwaith archwilio blaenorol wedi amlygu bod Cronfeydd wrth Gefn Dirprwyedig Ysgolion dan bwysau hefyd gyda diffyg ar 31 Mawrth 2020 o £1.26 miliwn. Mae'r Adroddiad Alldro Refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Mehefin 2021 yn amlygu bod y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021 wedi gwella i sefyllfa lle'r oedd gwarged o £2.880 miliwn. Mae'r sefyllfa well hon i'w phriodoli i grant o £4 miliwn a gafwyd ym mis Mawrth 2021 i gefnogi costau craidd ysgolion. Er bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn ysgolion yn dangos gwarged o £2.880 miliwn, mae cronfeydd wrth gefn ysgolion uwchradd yn dal i fod mewn diffyg. Bu gostyngiad o £1.354 miliwn yn y diffyg yn ystod y flwyddyn ac ar 31 Mawrth 2021, £2.078 miliwn ydoedd.
- mae Datganiadau Ariannol drafft y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 yn amlygu bod Cronfa'r Cyngor a'i Gronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy

wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020-21. Ar 31 Mawrth 2021, £13.634 miliwn oedd Balans Cronfa'r Cyngor (31 Mawrth 2020: £9.471 miliwn) a £34.142 miliwn oedd balans ei Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi (31 Mawrth 2020: £19.114 miliwn).

11 Mae adroddiad Alldro Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020-21 yn cydnabod y sefyllfa ariannol well ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond yn pwysleisio ei bod yn bwysig cydnabod nad yw hyn yn cael ei lywio gan gyllid cylchol. Mae'r adroddiad yn amlygu bod y Cyngor yn neilltuo cyllid i ariannu costau untro a fydd o gymorth gydag adferiad ac yn ateb galw ychwanegol yn y tymor byr. Mae hyn yn sicrhau bod cronfa gyffredinol y Cyngor yn cael ei chynnal ar lefel briodol ac yn rhoi cyfle i'r Cyngor gynyddu i'r eithaf y cyfle a gyflwynir i wella cydnerthedd ariannol wrth iddo symud i mewn i ansicrwydd pellach a'r heriau parhaus sydd o'i flaen.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau | £286.5 | £262.8 | £281.5 | £274.0 | £276.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [2] | £37.0 | £37.1 | £26.8 | £28.6 | £47.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau [3] | 13.6% | 14.4% | 8.1% | 10.4% | 17.2% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 14/22 | 12/22 | 21/22 | 15/22 | Cymhariaeth 2020-21 ddim ar gael |

Ffynhonnell: Dadansoddiad tîm canolog Archwilio Cymru

[2] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[3] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

## Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn dangos sefyllfa well o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

12 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

13 Canfuom fel a ganlyn:

- un o'n negeseuon allweddol o adroddiad 2019-20 oedd bod y Cyngor wedi gorwario'n gyson mewn meysydd gwasanaeth allweddol (e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu) yn erbyn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Mae grantiau ychwanegol a ddyfarnwyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, defnydd o gronfeydd wrth gefn penodol ac addasiadau cyfrifyddu eraill (e.e. y newid ym mholisi'r Cyngor ar gyfer ei Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) wedi helpu i leihau lefel y diffygion a ragwelir yn sylweddol neu wedi sicrhau bod gorwariannau a ragwelwyd yn flaenorol heb ddigwydd. Roedd rhagolwg Alldro Refeniw'r Cyngor hyd at ddiwedd y flwyddyn ar 28 Chwefror 2021 yn dynodi y byddai gorwariant mewn tri maes gwasanaeth: Gwasanaethau Oedolion (£707,000), Gwasanaethau Plant (£60,000) a Chyllid (£348,000).
- mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer 2020-21, o ran y sefyllfa ar 28 Chwefror 2021, hefyd yn amlygu bod ffrydiau cyllid ychwanegol a gafwyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol wedi cael effaith sylweddol ar ragolygon ariannol yn ystod y flwyddyn a luniwyd yn flaenorol. Roedd yr adroddiad yn amlygu bod llawer o gyhoeddiadau ynghylch cyllid wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru trwy gydol mis Chwefror 2021, a ddarparodd grantiau ychwanegol a oedd yn gyfanswm o £7.8 miliwn i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor. Bydd peth o'r cyllid hwn yn cael ei gario ymlaen ac yn cael ei ddefnyddio yn 2021-22, tra bydd elfennau eraill yn cael eu defnyddio i wrthbwyso gwariant yn ystod y flwyddyn. Roedd y cymorth ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru'n golygu bod y sefyllfa o ran diffyg ar ddiwedd y flwyddyn a ragwelwyd yn flaenorol gan y Cyngor wedi'i haddasu'n sylweddol. Bellach mae'r Cyngor yn rhagweld gwarged o £7.902 miliwn (£5.906 miliwn pan nad yw'r Cyfrif Refeniw Tai a chyllidebau dirprwyedig ysgolion yn cael eu cynnwys).
- mae'r Cyngor wedi amcanu at ymdrin â phatrymau a materion mewn perthynas â chyflawni cyllidebau a gynlluniwyd dros y blynyddoedd diwethaf trwy gyflwyno'i broses Cynllunio Busnes Integredig (CBI), rhaglen drawsnewid a dull gwahanol o bennu cyllidebau o fewn gwasanaethau. Fel a

amlygwyd uchod, mae'r rhagolwg Alldro Refeniw yn dynodi perfformiad gwell ar y cyfan yn erbyn y gyllideb ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau allweddol. Fodd bynnag, oherwydd natur eithriadol y flwyddyn ariannol, lle mae gwariant ychwanegol heb ei gynllunio a cholledion incwm wedi digwydd o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'n anodd cadarnhau a gafodd y gwelliannau ym mhroses cynllunio'r gyllideb yr effaith a ddymunwyd ynteu a yw'r perfformiad gwell wedi digwydd o ganlyniad i gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Arddangosyn 5: mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma fel a ragwelwyd ar ddiwedd mis Chwefror 2021**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [4] | £237.10m | £240.00m | £247.00m | £255.20m | £269.40m |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [5] | £237.14m | £234.74m | £244.78m | £251.40m | £261.50m |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan[6] | Gorwariant o -£0.04m | Gwarged o £5.26m | Gwarged o £2.22m | Gwarged o £3.8m | Gwarged o £7.9m |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | -0.01% | 2.19% | 0.89% | 1.49% | 2.93% |

# Er ei fod wedi gwneud gwelliannau cynyddrannol i drylwyredd cynigion ar gyfer arbedion a'r modd y cânt eu herio, nid yw'r cwantwm llawn o arbedion blynyddol sy'n ofynnol yn cael ei gyflawni

## Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

14 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau

[4] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[5] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[6] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

15 Canfuom fel a ganlyn:

- un o'r negeseuon allweddol o'n hadroddiad yn 2019-20 oedd nad oes gan y Cyngor hanes o gyrraedd ei holl dargedau blynyddol ar gyfer arbedion wedi'u cynllunio. Er ei fod wedi gwneud gwelliannau cynyddrannol i drylwyredd cynigion ar gyfer arbedion a'r modd y cânt eu herio dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd mwy nag 80% o'i dargedau blynyddol ar gyfer arbedion.
- o ran y sefyllfa ar 28 Chwefror 2021, roedd y Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni £9.544 miliwn o'i darged arbedion o £12.394 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Oddeutu 77% o'i darged yw hyn. O'r £2.85 miliwn o arbedion nad yw'n rhagfynegi y bydd yn eu cyflawni, caiff £1.634 miliwn eu hystyried bellach yn rhai na ellir eu cyflawni, yn bennaf oherwydd effaith y pandemig a ataliodd brosiectau trawsnewid wrth i'r Cyngor ganolbwyntio ar waith a oedd yn allweddol bwysig i'r busnes. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u tynnu allan o gyllideb 2021-22.
- ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn dal i ystyried y gellir cyflawni'r £1.216 miliwn sy'n weddill ac mae'r rhain wedi cael eu treiglo i 2021-22 a'r tu hwnt.
- os bydd y Cyngor yn cyflawni'r un lefel o arbedion ag y mae'n eu rhagweld yn 2020-21 (h.y. 77%) dros y pum mlynedd ariannol nesaf, bydd yn golygu mai dim ond £37.9 miliwn o'i darged o £49.174 miliwn y bydd yn ei gyflawni.
- felly, mae gallu'r Cyngor i gyflawni'r cwantwm llawn o arbedion fel a nodir yn ei SATC dros y blynyddoedd nesaf yn dal i fod yn risg sylweddol i'w gynaliadwyedd ariannol wrth edrych tua'r dyfodol.

**Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2019-20 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion yn ystod y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau [7] | 12.1m | 11.8m | 12.3m | 21.7m | 12. 4m |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau [8] | 9.6m | 8.3m | 6.5m | 15.9m | 9.5m |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 2.5m | 3.5m | 5.5m | 5.8m | 2.9m |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 79% | 71% | 53% | 73% | 77% |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Powys

## Mae cymhareb hylifedd ariannol y Cyngor yn gymharol isel, ond mae'n dangos sefyllfa gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig?

16 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau

[7] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[8] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.

- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

17 Canfuom fel a ganlyn:

- Mae **Arddangosyn 7** yn darparu dadansoddiad o sefyllfa hylifedd y Cyngor ers 2015-16. Mae cymhareb hylifedd uwch nag 1.0 yn golygu bod gan gyngor fwy o asedau cyfredol na rhwymedigaethau cyfredol ar yr adeg honno.
- mae'r dadansoddiad yn dangos, ers 2015-16, bod cymhareb hylifedd y Cyngor wedi gostwng islaw 1.0. Y rheswm allweddol dros y gostyngiad hwn yw y bu cynnydd sylweddol yn lefel y benthyciadau byrdymor a'r credydwyr byrdymor dros y cyfnod hwn. Mae benthyciadau byrdymor wedi cynyddu o £3.0 miliwn yn 2015-16 i £73.4 miliwn yn 2020-21, ac mae credydwyr byrdymor wedi cynyddu o £28.6 miliwn i £49.0 miliwn dros yr un cyfnod.
- yn ystod y cyfnod hwn, mae'r symudiad mwyaf arwyddocaol mewn asedau cyfredol yn ymwneud â dyledwyr byrdymor sydd wedi cynyddu £20 miliwn.
- yn seiliedig ar ei ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer 2020-21, bydd cymhareb hylifedd y Cyngor yn aros ar 0.8 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21.

**Arddangosyn 7: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2019-20 o'r Datganiad Cyfrifon a chyfrifiad Archwilio Cymru, a 2020-21 gan Gyngor Sir Powys**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [9] | £38.1m | £59.0m | £38.5m | £50.9m | £60.4m | £107.8m |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [10] | £33.7m | £66.4m | £52.4m | £57.7m | £74.7m | £136.7m |
| Cymhareb Hylifedd | 1.1 | 0.9 | 0.7 | 0.9 | 0.8 | 0.8 |

[9] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

[10] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.